



Caerdydd
Ddwyieithog



Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2016-17

O 30 Mawrth 2016, mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gydymffurfio â rheoliadau newydd Safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut y dylai, fel sefydliad, ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'. Mae copi o'r safonau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn hefyd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wireddu ein gweledigaeth o greu Prif Ddinas wirioneddol ddwyieithog, sy'n darparu gwasanaeth o'r un ansawdd uchel yn y Gymraeg ac yn y Saesneg i'n dinasyddion. Bydd y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn ein cynorthwyo ni i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghaerdydd a'n helpu ni i gyflawni ein gweledigaeth uchelgeisiol o brif ddinas wirioneddol ddwyieithog i Gymru.

Daeth safonau newydd y Gymraeg i rym fis Mawrth 2016 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan ddisodli cynllun iaith Gymraeg y Cyngor a grëwyd fel un o ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Prif nod y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gweithiwr unigol i wneud cais am wybodaeth neu wasanaethau yn y Gymraeg.

Rhestrir y safonau yn y categorïau canlynol

- **Safonau darparu gwasanaeth:**
Mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau er mwyn hyrwyddo neu hwyluso defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- **Safonau llunio polisi:**
Ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau ystyried pa effaith y bydd eu penderfyniadau polisi yn eu cael ar allu personau i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- **Safonau gweithredol:**
Safonau sy'n mynd i'r afael â defnydd mewnol o'r Gymraeg gan sefydliadau.
- **Safonau hyrwyddo:**
Ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y mae'n bwriadu hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.
- **Safonau yn ymwneud â chadw cofnodion:**
Bydd y safonau hyn yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i gadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir gan sefydliad. Bydd y cofnodion hyn yn cynorthwyo'r Comisiynydd i reoleiddio cydymffurfiaeth y sefydliad â'r safonau.

Mae safonau'r Gymraeg wedi'u drafftio gyda'r bwriad o:

- Wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn Gymraeg
- Cynyddu defnydd pobl o wasanaethau Cymraeg
- Egluro i sefydliadau beth sydd angen iddyn nhw ei wneud o ran y Gymraeg
- Sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a roddir ar sefydliadau yn yr un sectorau.

Mae pob awdurdod lleol wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg sy'n rhestru'r safonau a'r dyddiad cydymffurfio y mae disgwyl i'r sefydliad gydymffurfio â nhw. Cyflwynwyd **171** safon i Gyngor Dinas Caerdydd, yr oedd yn rhaid cydymffurfio â 155 ohonynt erbyn 30 Mawrth 2016 a 15 ohonynt erbyn 30 Medi 2016.

Cyngor Dinas Caerdydd				
Categoriâu	Dyddiad cydymffurfio 30 Mawrth 2016	Dyddiad cydymffurfio 30 Medi 2016	Dyddiad cydymffurfio 30 Medi 2018	Cyfanswm
Cyflenwi Gwasanaethau	85	3	0	88
Llunio Polisi	16	0	0	16
Gweithredu	41	7	1	49
Cadw Cofnodion	13	1	0	14
Hyrwyddo	0	4	0	4
Cyfanswm	155	15	1	171

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein cynnydd hyd yn hyn a hefyd data allweddol y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt o dan y safonau.

Cytunir ar Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg gan y Cyngor llawn a'i gymeradwyo, cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â'r gofynion statudol y safonau.

Bydd yr adroddiad ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Cyngor o **30 Mehefin 2017** ymlaen www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

2. Cyflawniadau

- Cyhoeddwyd Strategaeth 5 mlynedd yr Iaith Gymraeg Caerdydd Ddwieithog ym mis Mawrth 2017 yn dilyn ystyriaeth gan y cabinet a'r Cyngor llawn. Mae'n nodi ein blaenoriaethau i hwyluso a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd ar y cyd â'n partneriaid, gan ddechrau ar ein taith i fod yn brifddinas wirioneddol ddwyeithog ar gyfer Cymru.
- Dychwelwyd **97.1%** o geisiadau cyfieithu gan Gaerdydd Ddwieithog erbyn terfynau amser cytunedig (**8,352,966** o eisiau). Cyfieithodd y tîm mwy o eiriau nag unrhyw flwyddyn flaenorol. Cynnydd o **64.7%** yn nifer y geiriau a gyfieithwyr o'i gymharu â 2015-16.
- Wedi ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ddarparu Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg.
- Cwblhaodd **800** o staff yr e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith Gymraeg Corfforaethol yn 2016-17, ac mae cyfanswm o **1946** o staff wedi cwblhau'r modiwl hyd yn hyn (25.5.17).
- Mynychodd **184** o staff hyfforddiant Cymraeg a ariannwyd yn gorfforaethol yn 2016-17.
- Hysbysodd y Cyngor **54** o swyddi Cymraeg hanfodol, a **141** o swyddi ychwanegol lle'r oedd y Gymraeg yn ofyniad dymunol.
- Cyhoeddwyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 gan y Cyngor ym mis Mawrth 2017, a fydd yn gweithredu fel sbardun allweddol i sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a chreu siaradwyr newydd, i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Mae Caerdydd Ddwieithog wedi prynu offer cyfieithu ar y pryd ac wedi hyfforddi 2 gyfieithydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn fewnol i bob gwasanaeth yn ogystal â sefydliadau partner.
- Hyrwyddo a chyfathrebu cyfres o ganllawiau corfforaethol sydd wedi'u llunio i gynorthwyo staff i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
- Erthygl sefydlog ym Mriff Craidd y Cyngor a chylchredeg briff misol Materion Cymraeg (a ddsberthir drwy rwydwaith cydgysylltwyr y Gymraeg) er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiadau o fewn agenda'r Gymraeg neu unrhyw gywion a dderbynnir yn erbyn cynllun/safonau'r Gymraeg.

3. Caerdydd Ddwieithog Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg 2017-2022

Mae Safon 145 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd erbyn 30 Medi 2016 sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chymau penodol i hwyluso'r defnydd o'r iaith yn unol â Strategaeth y Gymraeg 2012 - 17 a strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (cyhoeddwyd ym mis Awst 2016).

Cynhaliwyd ymgynghoriad Cyhoeddus ar y strategaeth yn ystod hydref y llynedd ac roedd mwy na 70 y cant o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno â'r weledigaeth o Gaerdydd wirioneddol ddwyeithog a mwy na 53 y cant yn cytuno â'r targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas. Fel rhan o'r ymgynghoriad cynhaliwyd gweithdy ar 20 Hydref gyda 26 o'n prif bartneriaid a rhanddeiliaid. Ymhlith y

mynychwyr roedd Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Menter Caerdydd ac Urdd Gobaith Cymru.

Mae hon yn strategaeth i'r ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig. Bydd cyflawni'r strategaeth felly yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg ac, yn bwysicach na dim, gyda phobl Caerdydd. Mae'r plattform ar gyfer gwneud hyn yn ei le yn barod. Daeth cynhadledd Caerdydd Ddwyeithog, a drefnwyd gan y Cyngor, â phartneriaid ynghyd o bob rhan o'r ddinas, ac arweiniodd at gyfleuster pwrpasol yn y ddinas a fyddai'n arddangos yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn ogystal â chreu cyfleoedd newydd i bobl gymdeithasu, cyfranogi a mynegi eu hunain mewn awyrgylch dwyieithog. O ganlyniad, agorwyd Yr Hen Lyfrgell, Canolfan Gymraeg Caerdydd, ym mis Chwefror 2016 yn adeilad yr Hen Lyfrgell. Bydd y ganolfan hon – a'r bartneriaeth y mae'n ei chynrychioli – yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o hybu'r Gymraeg yn y ddinas a gweithredu blaenoriaethau'r strategaeth hon.

Dros y 25 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu gyda ffigyrau'r Cyfrifiad diwethaf yn dangos bod dros 16% o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Wrth i'r ddinas dyfu, nod y strategaeth hon yw cynyddu nifer a chanran y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yng Nghaerdydd. I gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth hon, byddai angen i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd gan 15.9% o 36,735 (Cyfrifiad 2011) i 42,583 (Cyfrifiad 2021).

Bydd cefnogi pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau i ddysgu a siarad Cymraeg hefyd wrth wraidd y gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau. Yn ddiweddar, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nhwf addysg Gymraeg yn y ddinas, gyda chynnydd parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael addysg Gymraeg. Bydd y system addysg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau twf yr iaith yn y dyfodol wrth i ni geisio cynyddu nifer y plant – a'r rhieni - sy'n cael y cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg, a chael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i glwydi'r ysgol.

Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog yw'r strategaeth hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyntaf ar gyfer Cyngor Dinas Caerdydd ac fe'i chyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017 yn dilyn ystyriaeth gan y cabinet a'r Cyngor llawn. Mae'n nodi ein blaenoriaethau i hwyluso a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd ar y cyd â'n partneriaid, gan ddechrau ar ein taith i fod yn brifddinas wirioneddol ddwyieithog ar gyfer Cymru.

Cymeradwywyd y strategaeth gan y Cyngor llawn ar 23 Mawrth 2017 ac mae ar gael i'w gweld yn www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

4. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020

Datganiad Cenhadaeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)

Bydd pob plentyn yn ein dinas yn hyderus yn eu Cymraeg erbyn 2050, er mwyn cyfrannau at greu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle y caiff y Gymraeg ei hamddiffyn a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

Gweledigaeth WESP

Bydd system addysg Caerdydd yn gweithredu fel sbardun allweddol i sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a chreu siaradwyr newydd, i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gwerthoedd WESP

Dros y tair blynedd nesaf, 2017-2022, nodau strategol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yw darpariaeth addysgol:

- Lle y mae addysg a gofal plant Cymraeg **ar gael** i bawb, gyda phontio effeithiol rhwng oeddrannau a chyfnodau;
- Lle y mae disgyblion yn **fwy rhugl** a gwneir mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ym mhob ysgol sefydledig, cymunedol a ffydd yng Nghaerdydd.
- Sy'n **gynhwysol**, yn chwalu rhwystrau ac yn rhoi cyfleoedd i unrhyw berson ifanc gael addysg dda yn Gymraeg;
- Lle'r ydym ni'n **dathlu** ac yn hybu'r iaith Gymraeg, trwy addysgu o safon uchel a herio galluedd dysgu plant;
- Lle'r ydym ni'n **hybu** defnydd ehangach o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafelloedd dosbarth trwy gyfleoedd chwarae, hamdden, gofal gwyliau ac ieuencid a thu hwnt i'r ysgol mewn Addysg Uwch a Phellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Bob tair blynedd mae gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) tair blynedd o hyd. Mae CSCA yn gynllun sy'n manylu ar gyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio a rhoi addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg yn yr awdurdod.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd yn cwmpasu'r cyfnod 2017-2020. Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg (Ebrill 2010) bresennol Llywodraeth Cymru yw sail y cynllun ynghyd â datganiad polisi ar gyfer 2015-16 (Mawrth 2016). Mae hefyd yn rhan greiddiol o Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg (2017-2022) Caerdydd Ddwieithog.

Caiff y targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ei chyflawni i raddau helaeth trwy gyfrwng y CSCA a'r system Addysg. Mae'r dyheadau o fewn CSCA Caerdydd yn unol â strategaeth bum mlynedd Caerdydd Ddwieithog ac fe gaiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith bod y gweledigaethau a aliniwyd a chmau gweithredu penodol i'w gweld yn y ddwy ddogfen fel ei gilydd.

Mae'r ddwy strategaeth yn rhannu'r un weledigaeth sef sicrhau gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 ac i ddatblygu Caerdydd ddwyieithog gydag addysg cyfrwng Cymraeg a gofal plant Cymraeg ar gael i bawb, a lle caiff yr iaith Gymraeg ei hamddiffyn a'i meithrin er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

Cymeradwywyd y strategaeth gan y Cabinet ar 16 Mawrth 2017 ac mae ar gael i'w gweld yn <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Addysg/Documents/Cynllun%20Strategol%20Cymraeg%20mewn%20Addysg.pdf>

5. Cwynion yn erbyn Safonau'r Gymraeg 2016-17

Yn ystod 2016/17, derbyniwyd cyfanswm o 17 o gwynion mewn cysylltiad â Safonau'r Gymraeg – gweler **Atodiad I** am ragor o wybodaeth. Pa un a dderbyniwyd cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, aethpwyd i'r afael â hwy yn unol â'r weithdrefn gwyno gorfforaethol.

Roedd y Cyngor hefyd yn destun 19 ymchwiliad i mewn i'r methiant posibl o gydymffurfio â'r safonau o dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gomisiynydd y Gymraeg. O'r rhain, mae'r Cyngor wedi derbyn:

- **4 Penderfyniad Terfynol** yn cadarnhau ein bod ni wedi **torri** Safonau'r Gymraeg mewn cysylltiad ag *arwyddion ffyrdd dros dro, arwyddion digwyddiadau dros dro, gwasanaeth ffôn y tîm Cynllunio, a ffurflen y Dreth Gyngor ar-lein nad oedd ar gael yn Gymraeg ar y pryd.
- Cadarnhaodd **1 Penderfyniad Terfynol nad ydym wedi torri** safonau'r Gymraeg mewn cysylltiad â gwasanaeth ffôn gan Cysylltu â Chaerdydd (C2C).
- Mae **4** o'r ymchwiliadau hyn wedi **dod i ben**. Ymchwiliadau yn ymwneud ag arwydd anghywir yn Harbwr Caerdydd, gwefan Rhentu Doeth Cymru, tudalennau gwe ModernGov Caerdydd, a chyfeiriadau Saesneg ar gardiau pleidleisio etholiadol.

Mae'r Cyngor yn aros ar hyn o bryd am hysbysiadau penderfyniad terfynol ar gyfer 10 ymchwiliad. Mae cofrestr o gamau gorfodi ar gael i'w gweld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg

<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Gorfodi/Cofrestr%20camau%20gorfodi/Pages/ygofrestr.aspx>

Diweddarwyd y polisi Cwynion Corfforaethol yn 2015-16 i adlewyrchu gofynion penodol sy'n deillio o gyflwyno safonau'r Gymraeg, gan gynnwys cadarnhau bod y Cyngor yn croesawu cwynion yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac y bydd yn ymateb i ba bynnag iaith y cysylltir ag ef ynddi. Mae'r polisi wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd ac mae gofyn i'r holl Gyfarwyddiaethau lenwi Ffurflen Monitro Cwynion bob chwarter er mwyn adrodd nifer y cwynion y maent wedi derbyn mewn cysylltiad â Safonau'r Gymraeg.

6. Swyddi a hysbysebwyd yn 2016-17

Yn ystod 2016/17, hysbysebwyd **1394** o swyddi – Gweler **Atodiad II** am ddadansoddiad manylach.

Hysbysebwyd **54** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

Hysbysebwyd **141** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol.

Hysbysebwyd **1199** o swyddi, lle ystyriwyd nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

Nodwch fod y ffigyrau hyn hefyd yn cynnwys swyddi wedi'u hail-hysbysebu.

Nid oes gwybodaeth ar hyn o bryd gan y Cyngor yn ymwneud â sgiliau Cymraeg, y mae angen eu dysgu pan gaiff pobl eu penodi i swyddi sy'n dynodi bod y Gymraeg naill ai'n hanfodol, yn ddymunol neu nad oes ei hangen, o dan Strategaeth Sgiliau Cymraeg y Cyngor. Mae achosion wedi bod pan fo swyddi wedi'u hail-hysbysebu gan ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeiswyr llwyddiannus fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg.

7. Gyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a Hyfforddiant iaith Gymraeg

Mae safon rhif 128 wedi'i chyflwyno i Gyngor Dinas Caerdydd, sy'n nodi fod yn rhaid i ni ddarparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Cwynion a gweithdrefnau disgyblu;
- Sefydlu;
- Delio â'r cyhoedd; ac
- Iechyd a diogelwch.

Mynychodd **117** o aelodau staff gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg yn 2016/17 a mynychodd 67 aelod arall o staff gwrs deuddydd blas ar y Gymraeg ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2016.

Caiff nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn Hyfforddiant iaith Gymraeg a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith Gymraeg eu monitro'n agos a chaiff cofnodion unigol eu cadw ar y System AD fewnol (DigiGov). Gweler **Atodiad III** am ddadansoddiad o gyrsiau unigol.

Ym mis Medi 2015, roedd yr e-fodiwl hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith Gymraeg newydd ar gael i staff ar wefan Canolfan Ddysgu Academi Caerdydd. Mae **800** o aelodau staff wedi cwblhau'r modiwl ymwybyddiaeth iaith Gymraeg yn 2016-17, ac mae **1946** o aelodau staff wedi cwblhau'r modiwl ers ei lansio (hynny ar 25.05.17).

Mae **44** o aelodau staff o wasanaethau oedolion a phlant wedi mynychu hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith Gymraeg wyneb yn wyneb, ac mae 95 aelod arall o staff wedi cwblhau'r modiwl ar-lein. Mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith Gymraeg mwy uniongyrchol ar ffurf timau eisoes wedi'u

trefnu ar gyfer yn ystod 2017/18. Mae'r rhain wedi'u hanelu'n benodol at staff gofal cymdeithasol, sy'n ei chael hi'n anos mynychu sesiynau oddi ar y safle.

Safonau'r Gymraeg, rhifau 128-132 (hyfforddiant mewnol) Darparwyd yr holl wybodaeth ar gyfer y cwrs yn Gymraeg; fodd bynnag, cyflwynwyd y cwrs ei hun yn Saesneg gan nad oedd niferoedd digonol i gyflwyno'r cwrs yn Gymraeg.

8. Sgiliau Cymraeg y Gweithwyr

Gyda datblygiad y system AD (DigiGov) a'r cyfle i aelodau staff ddilysu eu data personol eu hunain, mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gofnodi sgiliau Cymraeg (ac ieithoedd eraill) aelodau staff. Ar 31 Mawrth 2017, nodwyd bod 6,149 o aelodau staff (nad ydynt mewn ysgolion) wedi'u cyflogi gan Gyngor Dinas Caerdydd, ac o'r rhain, dilysodd cyfanswm o 4,274 o aelodau staff eu ceisiadau ar y system AD. O'r rhain mae 242 aelod o staff wedi nodi bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynrychioli 5.7% o'r rhai sydd wedi cofrestru ar y system. Bydd angen cyflwyno'r System AD (DigiGov) i rannau eraill o'r Cyngor hefyd (cyflogeion mewn ysgolion yn benodol), a fydd yn ein galluogi i fonitro'n ehangach. Mae erthyglau wedi'u cynnwys yn y briff Materion Cymraeg sy'n atgoffa staff o'r angen i ddiweddarau eu ceisiadau ar y system AD.

LEFEL	Darllen Nifer yr aelodau staff	Ysgrifenedig Nifer yr aelodau staff	Siarad Nifer yr aelodau staff
Dim/Sylfaenol lawn	36	47	38
Teg	50	62	46
Da	69	65	79
Da iawn	87	68	79
CYFANSWM	242		

9. Mwy na Geiriau

Fframwaith Strategol ar gyfer yr iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

Adroddiad Cynnydd 2016 - 17

Mae cynnydd o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau yn dilyn cyflwyno Safonau'r Gymraeg. Maent yn arwain at fwy o gyfrifoldeb corfforaethol ar gyfer sicrhau darparu gwasanaethau dwyieithog mewn gofal cymdeithasol a'r cyngor yn ei gyfanrwydd ac atgyfnerthu gofynion pwysig y fframwaith strategol Mwy na Geiriau. Mae Strategaeth Ddilynol newydd Mwy na Geiriau a'r cynllun gweithredu ar gyfer 2016-19 yn cysylltu pob un o'r amcanion â'r rhan berthnasol o Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn caniatáu i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ganolbwyntio ar bwysigrwydd anghenion iaith a'r cynnig rhagweithiol yn y maes gwasanaethau cymdeithasol, gyda phwyslais ar gefnogi staff i fodloni gofynion Mwy na Geiriau a Safonau'r Gymraeg. Mae'r gofynion hyn yn cwmpasu meysydd Arweinyddiaeth Genedlaethol a lleol; mapio a phroffilio, cynllunio gweithlu a gwasanaethau; hyrwyddo ac ymgysylltu; addysg broffesiynol; Cymraeg yn y gweithle a rheoleiddio ac archwilio.

Cyflawniadau yn 2016/17

- O ran arweinyddiaeth, mae un uwch swyddog bellach wedi'i benodi'n Hyrwyddwr yr iaith Gymraeg ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddod â gwasanaethau oedolion a phlant at ei gilydd. Mae gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol lefel dda o oruchwyliaeth ac arweinyddiaeth mewn cysylltiad â materion datblygu'r Gymraeg.
- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg wedi parhau ac mae aelodau staff wedi bod yn mynychu hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ogystal â chwblhau E-fodiwl ar wefan y Cyngor. Mae hyfforddiant pwrpasol wedi'i ddarparu i staff gofal a fydd yn gweithio yn y Ganolfan Gofal Dydd Demesia, sydd i fod i agor yn ystod 2017/18.
- Wedi parhau i gynnal sesiynau ar bwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol i israddedigion sy'n astudio'r radd gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Mae'r thema hon yn parhau drwy leoliadau gwaith proffesiynol a rhaglenni sefydlu gyda Chyngor Caerdydd ac mae'n elfen hanfodol o'r rhaglenni hyfforddi ar gyfer gwobr y Flwyddyn Gyntaf o Ymarfer.
- Cyflwynwyd arolwg i holl aelodau staff y Gyfarwyddiaeth er mwyn proffilio sgiliau, hyder ac anghenion hyfforddi penodol aelodau staff sy'n medru'r Gymraeg ac aelodau o staff sy'n ddysgwyr. Mae camau eisoes wedi'u cymryd i annog dysgwyr newydd a siaradwyr Cymraeg presennol i ddilyn hyfforddiant i fagu eu hyder ar draws y gwasanaeth. Mae proffil yr iaith a'r angen i siaradwyr Cymraeg i wneud eu hunain yn hysbys wedi cynyddu ar ôl cyflwyno'r arolwg.

- Mae cwestiynau i gofnodi dewis yr unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol wedi'u hychwanegu at y system gofnodi CareFirst. Gall aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn ddefnyddwyr uniongyrchol o'n gwasanaethau, gofrestru ar gyfer y Mynegai Anabledd lle y caiff eu dewis iaith ei gofnodi. Caiff cylchlythyrau Mynegai Anabledd hefyd eu dosbarthu yn seiliedig ar ddewis iaith tanysgrifwyr. Rhagwelir y bydd y System Wybodaeth Gofal yn y Gymuned (WCCIS) yn cymryd lle'r system gofnodi CareFirst yn y dyfodol. Mae cynrychiolwyr Caerdydd wedi tynnu sylw at yr angen i ystyried y Gymraeg ac maent wedi'u sicrhau bod ffrwd waith Gymraeg mewn cysylltiad ag WCCIS.
- Bu trafodaethau rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, Caerdydd Ddwyeithog a'r staff Comisiynu er mwyn nodi sut i gyfathrebu gofynion y Gymraeg i ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti, yn y modd mwyaf effeithiol a phriodol. Caiff dull cyson sy'n ymestyn y tu hwnt i ofal cymdeithasol i holl ddarparwyr y cyngor ei archwilio ar hyn o bryd. Mae ymgysylltu â'r Sector Annibynnol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
- Cyfrannodd Cydgysylltwyr y Gymraeg o'r Adran Gwasanaethau Oedolion a Phlant at y gwaith o gynhyrchu Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, a gwblhawyd ac a gyhoeddwyd eleni.
- Mae Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr a Chynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth yn cynnwys adrannau ar y Gymraeg, ac mae camau gweithredu'r Cynllun Cyflenwi'n cynnwys nod i gynyddu gallu'r Gyfarwyddiaeth i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn ystod 2017/18.

10. Monitro a Goruchwylio Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Er mwyn monitro cydymffurfiaeth â Safonau newydd y Gymraeg, mae'r safonau sydd wedi'u cyflwyno i Gyngor Dinas Caerdydd wedi'u grwpio a'u cynnwys fel camau gwella ar gyfer pob cyfarwyddiaeth ar System Gwella Caerdydd (CIS). Gweler **Atodiad IV**. Ymddangosodd bob cam yn erbyn pob un o'r Cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn ymwybodol o bob mesur, yn ogystal â chyfrifoldeb a dyddiad targed.

System Gwella Caerdydd yw prif offer yr awdurdod ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â safonau newydd y Gymraeg, er ein bod bellach wedi cynnwys mesurau gwella sy'n benodol i bob cyfarwyddiaeth y Cyngor ym mhob cynllun busnes cyfarwyddiaethau o fis Ebrill 2017 ymlaen, er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol bellach o ofynion y safonau.

Caiff materion yn ymwneud â'r Gymraeg eu hadrodd drwy adroddiadau perfformiad i'r Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad a grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyeithog.

11. Hyrwyddo a Hwyluso'r Safonau – y Camau Gweithredu Hyd yn Hyn

Gweler isod fesurau ychwanegol sydd wedi'u gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion newydd o ganlyniad i Safonau'r Gymraeg.

SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU

CAMAU GWEITHREDU HYD YN HYN

NODI DEWIS IAITH

Mae SAP RhCC (C4C) a dull sefydledig C2C yn cofnodi dewis iaith cwsmeriaid sy'n ymgysylltu â'r cyngor drwy ei ddull cysylltu canolog (C2C). Ar hyn o bryd, rhwng C2C a C4C, mae tua 10,500 o gofnodion cwsmeriaid sy'n nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'w rhannu gan ddefnyddio meysydd cydweithredu yn SharePoint, fodd bynnag, dylid cydgysylltu mynediad ar gyfer partïon sydd â diddordeb, drwy Caerdydd Ddwyeithog.

Bydd cyfarwyddiaethau unigol yn rheoli eu cofnodion cwsmeriaid eu hunain ac unrhyw ddewisiadau, fodd bynnag, ni chaiff yr wybodaeth ei rhannu ar draws yr awdurdod ar hyn o bryd.

GOHEBIAETH

Mae holl e-byst allanol y Cyngor yn ogystal â'r papur pennawd corfforaethol newydd yn cynnwys y datganiad canlynol o fewn y troedyn er mwyn gydymffurfio â gofynion safonau 2, 3 a 7.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

The Council welcomes correspondence in English and Welsh and we will ensure that we communicate with you in the language of your choice, whether that's English, Welsh or bilingual as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.

Mae canllawiau ar **Gyfathrebu'n Ddwyeithog** wedi'u cyhoeddi ar dudalen fewnwyd Caerdydd Ddwyeithog er mwyn gynorthwyo aelodau staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud â gohebu:

SAFONAU'R GYMRAEG: GOHEBIAETH (1-7)

Creu cronfa ddata o ddewis iaith unigolyn (Cymraeg/Saesneg) a / neu sicrhau bod gennych broses ar waith ar gyfer cofnodi dewis iaith e.e. SAP RhCC. Cofnodwch y gronfa ddata neu'r broses sydd gennych ar waith. Cynhaliwch archwiliad i sicrhau bod yr holl lythyron ac e-byst safonol yn cael eu hanfon yn ddwyieithog a chynnwys datganiad ynghylch dewis iaith.

Cofnodwch ganlyniadau'r archwiliad gan gynnwys mesurau gwella ychwanegol ar gyfer unrhyw lythyron a/neu e-byst nad ydynt yn cydymffurfio.

GALWADAU FFÔN

Mae canllawiau ar gyfer aelodau staff ynglŷn â galwadau ffôn Cymraeg wedi'u cyhoeddi i gynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn. Caiff y rhan fwyaf helaeth o alwadau ffôn eu derbyn gan ganolfan gyswilt C2C y Cyngor, sydd â thîm Cymraeg penodol.

Ar y cyfeiriadur ffôn canolog, gall staff ddefnyddio hidlydd i weld yr holl siaradwyr Cymraeg o fewn eu gwasanaeth / Cyfarwyddiaeth.

Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud â galwadau Ffôn:

SAFONAU'R GYMRAEG: GALWADAU FFÔN (8-22)

Sicrhau bod holl aelodau staff o fewn eich Cyfarwyddiaeth wedi derbyn gwybodaeth am y broses ar gyfer delio â galwadau Cymraeg a'u bod nhw'n ymwybodol ohoni (<http://vmweb22.cardiff.gov.uk/cis/viewdocument.php?id=74658>). Sicrhau hefyd y cofnodir sut y mae'r wybodaeth wedi'i dosbarthu. Cynnal archwiliad mewnol i sicrhau bod staff yn dilyn y broses gytunedig fel y nodir yn y canllawiau, gan gynnwys ateb y ffôn yn ddwyieithog a throsglwyddo galwadau'n gywir. Cofnodi canlyniadau'r archwiliad gan gynnwys mesurau gwella ychwanegol ar gyfer unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio a ganfyddir.

CYFARFODYDD

Mae canllawiau newydd ar gyfer staff ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog wedi'u cyhoeddi er mwyn cynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewnol i bob Cyfarwyddiaeth a gwasanaeth.

Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud â Chyfarfodydd:

SAFONAU'R GYMRAEG: CYFARFODYDD (24-34)

Sicrhau bod pob aelod o staff o fewn eich Cyfarwyddiaeth yn ymwybodol o'r Canllawiau ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd (<http://vmweb22.cardiff.gov.uk/cis/viewdocument.php?id=74656>) a chofnodi sut y mae'r wybodaeth wedi'i dosbarthu. Cynnal archwiliad mewnol i sicrhau bod yr aelodau staff i gyd yn ymwybodol o'r canllawiau, gan gynnwys cynnig dewis iaith a threfnu ar gyfer cyfieithydd ar y pryd yn ôl yr angen. Cofnodi canlyniadau'r archwiliad gan gynnwys mesurau gwella ychwanegol ar gyfer unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio a ganfyddir.

DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS

Mae Tîm Digwyddiadau'r Cyngor yn sicrhau y caiff gofynion y Gymraeg eu cynnwys mewn contractau ar gyfer digwyddiadau y mae'r Cyngor yn bartner ar eu cyfer. Mae'r holl staff wedi derbyn canllawiau a rhestr wirio Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer trefnu digwyddiadau drwy'r briff misol

Materion Cymraeg.

Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud â Digwyddiadau Cyhoeddus.

SAFONAU'R GYMRAEG: DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS (35-36)

Sicrhau bod pob digwyddiad cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gennym ni yn ddwyieithog, drwy greu rhestr wirio o'r gofynion dwyieithog canlynol ar gyfer pob digwyddiad: Deunydd cyhoeddusrwydd, arwyddion, cyhoeddiadau sain a gwasanaethau a gynigir i bobl sy'n bresennol yn y digwyddiad, yn ogystal â sicrhau y cedwir cofnodion cyfredol a manwl gwir o'r ffaith bod pob elfen yn ddwyieithog ym mhob digwyddiad.

DOGFENNAU A FFURFLENNI

Cyfarfodydd (41)

Sicrhau y caiff agendâu a chofnodion eu uwchlwytho drwy wefan Modern.Gov Caerdydd.

Mae ffurflen gais cynnwys gwefan y Cyngor a ffurflen gais cyfieithu ac e-byst dychwelyd gwaith cyfieithu yn atgoffa'r holl staff i gynnwys y geiriad canlynol yn unol â safonau 49 a 50A.

This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

This form is available in Welsh / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg.

Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud â Dogfennau a Ffurflenni:

SAFONAU'R GYMRAEG: Ffurflenni a Dogfennau (41-51)

Cwblhewch archwiliad i sicrhau bod y canlynol yn ddwyieithog o fewn eich Cyfarwyddiaeth: • Agendâu a chofnodion ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau a seminarau sydd ar agor i'r cyhoedd. • Ffurflenni • Trwyddedau • Tystysgrifau • Llyfrynau • Tafenni, pamffledi neu gardiau • Polisiâu, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau • Canllawiau, Codau Ymarfer a Rheolau • Datganiadau i'r Wasg. Cofnodwch eich canfyddiadau a pharatoi Cynllun Gwella (neu IACT) i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio.

ARWYDDION A HYSBYSIADAU

Mae nodyn cyfarwyddyd corfforaethol wedi'u cyhoeddi ar arwyddion a hysbysiadau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion hyn. Mae contractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor hefyd wedi'u hysbysu am y gofyniad i arddangos arwyddion dwyieithog gyda'r testun Cymraeg uwchben y Saesneg. Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud ag Arwyddion a Hysbysiadau:

SAFONAU'R GYMRAEG: ARWYDDION, HYSBYSIADAU A DEUNYDD ARDDANGOS (38, 613 / 6970)

Cynnal archwiliad i sicrhau bod pob arwydd presennol sy'n gysylltiedig â'ch Cyfarwyddiaeth yn ddwyieithog a phennu camau gwella i fynd i'r afael ag unrhyw achosion lle nad oes cydymffurfio. Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gofyniad i gael arwyddion a hysbysiadau dwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i gosod uwchben y Saesneg (pob arwydd newydd o 30 Mawrth 2016 ymlaen), a dangos tystiolaeth o sut y cyflawnwyd hyn.

GWEFANNAU, GWASANAETHAU AR-LEIN A'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Caiff gofynion yr iaith Gymraeg eu hystyried yn weithredol fel rhan o unrhyw friff prosiect neu fandad prosiect newydd fel rhan o'r datganiad gofynion.

Mae TGCh yn parhau i roi gwybod i gwsmeriaid fod ganddynt gyfrifoldeb i ddarparu deunydd Cymraeg gyda phob prosiect sy'n ymwneud â chwsmeriaid. Maent yn rhoi gwybod am hyn yn ystod y cam briffio. Cyfrifoldeb y cwsmer yw penderfynu a oes angen deunydd dwyieithog ar gyfer unrhyw system newydd ar ôl derbyn y cyngor hwn, felly ei gyfrifoldeb ef yw bodloni ei hun ei fod yn diwallu'r safonau. Mae Tîm y We yn archwilio i bob adran o www.caerdydd.gov.uk i sicrhau y caiff y Gymraeg ei chyhoeddi ar bob tudalen. Mae hyn yn cynnwys gwirio tudalennau, ffurflenni, dogfennau, dolenni ac ati, a gwirio bod dewis English / Cymraeg yn ymddangos wrth we-lywio. Mae hyn yn darparu dolen uniongyrchol rhwng y cynnwys Saesneg a'r cynnwys Cymraeg cyfatebol.

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyfrifon cyfryngau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol gwbl ddwyieithog ar Facebook a Twitter. Atgoffir staff yn aml drwy sianeli cyfathrebu sefydledig o'r angen i sicrhau bod unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r Cyngor, ar gael yn Gymraeg.

Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud â Gwefannau, Gwasanaethau Ar-lein a'r Cyfryngau Cymdeithasol:

SAFONAU'R GYMRAEG GWEFANNAU, GWASANAETHAU AR-LEIN A'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL (52-59)

Cynnal archwiliad i sicrhau bod pob gwefan sy'n ymwneud â'ch Cyfarwyddiaeth yn ddwyieithog a phennu camau gwella i fynd i'r afael ag unrhyw achosion lle nad oes cydymffurfio. Sicrhau bod eich holl staff yn ymwybodol o'r gofynion fod yn rhaid i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol fod yn ddwyieithog a gweithredu'n ddwyieithog, a chofnodi sut y dosbarthwyd y wybodaeth.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio a Rheoli Adeiladu wedi caffael Meddalwedd Rheoli Achosion sy'n cynnwys gwefan (croen) ddwyieithog newydd fel gofyniad y mae modd ei gyflawni. Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei weithredu erbyn diwedd 2017/18.

GWASANAETHAU DERBYNFA

Mae canllawiau ar wasanaethau derbynfa dwyieithog wedi'u cyhoeddi er mwyn cynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Rydym ni'n parhau i weithredu Strategaeth Sgiliau Cymraeg Corfforaethol y Cyngor sy'n bwriadu cynyddu nifer y staff â sgiliau Cymraeg mewn

swyddi rheng flaen. Mae'r Strategaeth hon yn sicrhau y caiff gofynion ieithyddol pob swydd rheng flaen eu hasesu, ac y dynodir y Gymraeg yn ofyniad hanfodol, dymunol neu nad oes gofyniad ieithyddol yn unol â hynny.

Mae gwasanaethau derbynfa dwyieithog ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yn Neuadd y Ddinas a Neuadd y Sir, fodd bynnag, mae safon 64 yn ymwneud â derbynfeydd eraill yn parhau i fod yn heriol. Pan ddaw'r swyddi hyn yn wag a chychwynnir ar y broses recriwtio, caiff y Gymraeg ei dynodi'n hanfodol nes y gall y tîm warantu gwasanaeth rheng flaen dwyieithog. Diffinnir hyn fel isafswm o 2 aelod o staff neu o leiaf 10% o dimau mwy.

Rydym ni'n parhau i ddarparu pecyn hyblyg o gyrsiau Cymraeg a ariennir yn gorfforaethol ar gyfer aelodau staff, ac a gynhelir gan y tîm Cymraeg i Oedolion (Prifysgol Caerdydd). Gall aelodau staff fynychu mwy na 100 o gyrsiau ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n addas ar eu cyfer nhw a'u gwaith. Yn ogystal â darparu'r cwrs blasu Cymraeg deuddydd o hyd a gynhelir yn flynyddol i aelodau staff yn fewnol, rydym ni'n bwriadu darparu rhagor o hyfforddiant pwrpasol ar gyfer cyfarch yn Gymraeg i staff derbynfeydd rheng flaen yn 2017-18.

Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud â Gwasanaethau Derbynfa:

SAFONAU'R GYMRAEG: GWASANAETHAU DERBYNFA (64-68)

Nodi pob gwasanaeth derbynfa sy'n gysylltiedig â'ch Cyfarwyddiaeth a sicrhau eu bod nhw'n darparu gwasanaethau dwyieithog (neu'n ymwybodol o'r broses pan nad oes siaradwr Cymraeg ar gael) drwy gynnal ymarfer siopwr cudd. Rhoi mesurau ar waith i ymdrin ag unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio. Sicrhau bod pob aelod o staff o fewn eich Cyfarwyddiaeth yn ymwybodol o'r Canllawiau ar gyfer Gwasanaethau Derbynfa Dwyieithog (<http://vmweb22.cardiff.gov.uk/cis/viewdocument.php?id=74654>) a chofnodi sut y mae'r wybodaeth wedi'i dosbarthu.

DYFARNU GRANTIAU

Sicrhau bod dogfennau grant perthnasol wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r gofynion newydd, ac y gofynnir i bob ymgeisydd grant am eu dewis iaith.

Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud â Dyfarnu Grantiau:

SAFONAU'R GYMRAEG: DYFARNU GRANTIAU (71-75)

Sicrhau bod pawb sy'n derbyn grant yn ymwybodol o'r gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i'r graddau y maent yn berthnasol i ddarpariaeth y gwasanaeth(au), a chofnodi sut y dosbarthwyd y wybodaeth. Cynnal archwiliad mewnol i sicrhau bod y rhai sy'n derbyn grantiau yn ymwybodol sut y mae'r safonau'n berthnasol i'w gwasanaeth, a chofnodi'r canlyniadau gan gynnwys unrhyw fesurau gwella ychwanegol.

DYFARNU CONTRACTAU

Mae manylebau ar gyfer cyflwyno tendr wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r gofynion newydd. Mae'r "Canllaw Gwerthu i'r Cyngor" newydd yn cynnwys y datganiad canlynol.

"Yn unol â Safonau'r Gymraeg (Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), ceir cyflwyno tendrau yn Saesneg neu'n Gymraeg. Ni chaiff tendr ar gyfer contract a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn cysylltiad â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mewn cysylltiad â'r amserlen ar gyfer hysbysu'r rhai sy'n cyflwyno tendr am yr hyn a benderfynir). Bydd y Cyngor yn cyfathrebu â'r rhai sy'n cyflwyno tendr yn eu dewis iaith, boed hynny'n Saesneg, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog."

Bydd tîm Caerdydd Ddwieithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewnol ar gyfer unrhyw gyfweiliadau tendro, a bydd y Telerau ac Amodau safonol ar gyfer contractwyr gwasanaethau yn cynnwys cymal wedi'i ddiweddarau sy'n ymdrin â'r gofynion deddfwriaethol newydd.

Mae swyddogion yn adran Gyfreithiol y Cyngor wedi derbyn cyfarwyddiadau i gynnwys y cymal canlynol ynglŷn â'r Gymraeg sydd wedi'i ddiweddarau, a hynny ym mhob contract.

Yn ystod Cyfnod y Cytundeb, bydd y Contractwr yn cytuno i gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

- ***Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd (Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i'r graddau y maent yn gysylltiedig â'r gwaith o ddarparu/ cynnal y **** (Gwasanaethau, Gwaith, Grant).***
- ***Mae copi o safonau'r Gymraeg ar gael yn <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Caerdydd-Ddwieithog/Pages/default.aspx>***

CYRSIAU ADDYSG

Cysylltodd y gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned â phob dysgwr i ofyn am eu dewis iaith (Safon 86), a chynnwys cwestiwn ychwanegol at y diben hwn yn eu ffurflenni gwerthuso. Mae copi o'r arolwg ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor. Cyflwynwyd y camau gwella canlynol i bob cyfarwyddiaeth yn ymwneud â Chyrsiau Addysg:

SAFONAU'R GYMRAEG: CYRSIAU ADDYSG (84-86)

Asesu'r angen i bob cwrs addysg a gynigir gan eich Cyfarwyddiaeth i gael eu cyflwyno yn Gymraeg, a chyhoeddi'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor. Sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am drefnu cyrsiau addysg o fewn eich Cyfarwyddiaeth yn ymwybodol o'r gofyniad i asesu'r angen ar gyfer cyflwyno'r cyrsiau'n Gymraeg, a dangos tystiolaeth o sut y cyflawnwyd hyn.

HYRWYDDO A HWYLUSO

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o weithredu'r safonau, mae'r Cyngor wedi creu a diweddarau canllawiau i staff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Crynodeb o'r 'Safonau Darparu Gwasanaethau'
- Cyfathrebu'n Ddwyieithog
- Gwasanaeth Derbynfa Dwyieithog
- Cynnal Cyfarfodydd Dwyieithog
- Galwadau Cymraeg
- Nodyn Canllaw: Arwyddion a Hysbysiadau Swyddogol Dwyieithog
- Canllawiau Cyfieithu
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw ar Enillion Cyflym

Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff ar Fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog ac maent wedi eu hyrwyddo i staff trwy ddulliau cyfathrebu cyfarwydd gan gynnwys y Briff Craidd misol a chylchlythyron 'Materion Cymraeg' a gaiff eu dosbarthu i'r holl staff. Mae erthyglau rheolaidd hefyd wedi ymddangos ar hafan fewnrwyd y Cyngor.

Mae arwyddion derbynfa (safon 67) a logos llofnod e-bost (safon 134) hefyd ar gael i aelodau staff ar dudalen fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog yn ogystal â chopi o'r safonau llawn, adroddiadau blynyddol, a'r ffurflen cais am gyfieithu ar-lein.

Mae cynnwys y we a'r ffurflen cais am gyfieithu wedi'u diweddarau i atgoffa staff i gynnwys y datganiadau corfforaethol i gydymffurfio â safonau 2, 4 a 7 (Gohebiaeth), 49 (ffurflenni) a 50A (dogfennau).

CYNGOR POLISI A CHYFIEITHU

Mae Caerdydd Ddwyieithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg-Saesneg, Saesneg-Cymraeg llawn, yn ogystal â gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor.

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a chynngor i bob aelod o staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar ran y Cyngor, ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor i Safonau'r Gymraeg statudol.

CYNGOR POLISI A CHYFIEITHU

Mae Caerdydd Ddwyieithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg-Saesneg, Saesneg-Cymraeg llawn, yn ogystal â gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor.

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a chyngor i bob aelod o staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar ran y Cyngor, ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor i Safonau'r Gymraeg statudol.

CYDLYNWYR A PHENCAMPWYR YR IAITH GYMRAEG

Mae gan y Cyngor rwydwaith o gydlynwyr a phencampwyr yr iaith Gymraeg ar draws ein Gwasanaethau amrywiol, sy'n cefnogi gwaith Caerdydd Ddwieithog o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg. Mae rôl yr aelodau'n cynnwys:

- Sicrhau bod eu Cyfarwyddiaeth yn cydymffurfio â safonau iaith Gymraeg y Cyngor.
- Rhoi adborth ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg gan y Gyfarwyddiaeth i'r grŵp, ac fel arall yn ôl yr angen.
- Rhoi adborth ar unrhyw gwynion neu faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaeth i'r grŵp.
- Dosbarthu dogfennaeth berthnasol a gwybodaeth o fewn y gwasanaethau.
- Cydlynu ymateb eu Cyfarwyddiaeth i'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

Mae rhwydwaith y cydlynwyr yn cwrdd yn fisol.

GRŴP AELODAU CAERDYDD DDWYIEITHOG

Mae Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwieithog yn grŵp trawsbleidiol sydd wedi'i sefydlu i arwain y gwaith o ddatblygu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog, lle y gall dinasyddion a staff Cyngor Dinas Caerdydd gael gafael ar wasanaethau yn y naill iaith neu'r llall drwy weithio'n well mewn partneriaeth. Yn ystod 2016-17, cyfarfu'r grŵp dair gwaith i drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg, yn bennaf y gwaith o weithredu Safonau newydd y Gymraeg a datblygu Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2017-2020 (Safon 145)

CAERDYDD DDWYIEITHOG: STRATEGAETH 5 MLYNEDD

Cymeradwywyd y strategaeth gan y Cyngor llawn ar 23 Mawrth 2017. Gweler tudalen 4.

STRATEGAETH SGILIAU CYMRAEG CORFFORAETHOL

Cymeradwywyd y Strategaeth Sgiliau Cymraeg Corfforaethol (SSCC) gan y Cyngor llawn, gyda chefnogaeth lawn yr Undebau, yn 2009. Diben y SSCC yw sicrhau bod gennym ni'r staff sydd â'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog i bobl sy'n cysylltu â'r cyngor.

Mae'r strategaeth yn darparu pecyn cymorth ymarferol er mwyn helpu rheolwyr i asesu eu gofynion o ran y Gymraeg, fel y gellir hysbysebu rhai swyddi fel 'Cymraeg hanfodol' ac y gellir cynnig hyfforddiant Cymraeg i staff presennol. Er mwyn cydymffurfio â gofynion safon 136 ac er mwyn symleiddio'r broses o asesu gallu ieithyddol ar gyfer swyddi newydd, mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ffurflen newydd ar gyfer asesu gallu ieithyddol yn rhan o'r system AD (DigiGov). Disgwylir i'r datblygiad hwn fod ar waith erbyn diwedd 2017, a bydd yn caniatáu i'r Cyngor gadw cofnodion llawn a manwl gywir o'r holl asesiadau wrth i ni sicrhau y cwblheir asesiadau ar gyfer pob swydd y recriwtir ar eu cyfer.

HYFFORDDIANT CYMRAEG

Cefnogir staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Ar hyn o bryd gall staff ddewis o dros 100 o gyrsiau a gymeradwyir ym Mhrifysgol Caerdydd neu yn y gymuned, sy'n amrywio o ddysgwyr llwyr i siaradwyr rhugl ar amser ac mewn lleoliad sy'n addas iddyn nhw.

Ceir cyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant Cymraeg, felly mae'r cyrsiau am ddim i staff Cyngor Caerdydd (blaenoriaeth i staff rheng flaen) a chredydir oriau staff am yr amser a neilltuir ganddynt wrth fynychu cyrsiau.

SAFONAU LLUNIO POLISI

CAMAU GWEITHREDU HYD YN HYN

Mae'r Offeryn Integreiddio Polisi wedi'i ddatblygu'n **Offeryn Sgrinio Polisi Statudol** i adlewyrchu'r cyd-destun polisi esblygol. Mae nifer o ofynion statudol yn gymwys os ydych yn datblygu strategaeth, polisi neu weithgaredd yn y Cyngor sy'n debygol o effeithio ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir mewn unrhyw ffordd. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn, neu fetu â dangos sylw dyledus iddynt, olygu y gallai'r Cyngor wynebu her gyfreithiol neu geryddon o fathau eraill.

Bydd cwblhau'r Offeryn Sgrinio Polisi yn sicrhau bod holl strategaethau, polisïau a gweithgareddau Cyngor Dinas Caerdydd yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol perthnasol. Pan fo angen ystyried mater mewn mwy o fanylder, bydd yr Offeryn Sgrinio yn nodi a oes unrhyw angen am asesiad effaith llawn, fel y bo'n berthnasol.

Mae'r prif ofynion statudol y mae'n rhaid i strategaethau, polisïau neu weithgareddau eu hadlewyrchu yn cynnwys y canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Llywodraeth Cymru
- Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru – Cydamcanu – Cydymdrechu
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Asesiad o Effaith ar Iechyd
- Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd
- Asesiad Amgylcheddol Strategol

Bydd yr Offeryn Sgrinio Polisi yn galluogi'r Cyngor i fodloni gofynion yr holl ddarnau hyn o ddeddfwriaeth fel rhan o ddull sgrinio integredig na fydd yn cymryd mwy nag awr i'w gwblhau fel arfer. Yn bwysicach na hynny, bydd yn sicrhau bod dull y Cyngor yn gyd-gysylltiedig ac yn

wybodus.

Mae'r Offeryn yn rhan o'r broses gorfforaethol. Rhaid i'r holl adroddiadau y mae angen penderfyniad cabinet llawn arnynt gwblhau blaengynllun i ddechrau. Mae'r blaengynllun yn nodi a oes yn rhaid i'r strategaeth/polisi neu'r gweithgaredd gael ei sgrinio gan yr offeryn sgrinio. Os oes angen, caiff y broses ei chwblhau cyn i'r adroddiad fynd i'r cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol.

Caiff yr offeryn ei ddiweddarau'n barhaus wrth i swyddogion perthnasol â chyfrifoldeb dros feysydd penodol amlygu unrhyw newid i'r amgylchedd polisi. Er enghraifft, mae'r offeryn wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu gofynion penodol polisiâu'r Cyngor sy'n tarddu o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn y ffordd hon gallwn annog proses gyd-gysylltiedig o wneud penderfyniadau a sicrhau bod unrhyw waith datblygu a wneir yn y Cyngor yn ymwybodol o ofynion ehangach a'r effaith bosibl ar faterion pwysig megis yr iaith Gymraeg.

I sicrhau y caiff y Gymraeg ei hystyried yn elfen ganolog o unrhyw waith datblygu polisi, mae hefyd wedi'i chynnwys ochr yn ochr â'r 9 nodwedd warchoddedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl ac sy'n amlwg iawn yn y cynllun Mae Pawb yn Bwysig (Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor). Mae hyn yn galluogi'r iaith Gymraeg i gael ei phrif-ffrydio gyda'r 9 nodwedd warchoddedig ym mhob rhan o'r sefydliad.

O fewn yr offeryn sgrinio ei hun, ceir adran sy'n annog ystyriaeth o unrhyw effaith (cadarnhaol, negyddol, niwtral neu ansicr) ar yr iaith Gymraeg. Gweler isod:

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect yn cael effaith wahaniaethol ar unrhyw rai o'r canlynol?

- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodasau a Phartneriaethau Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd/Cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Yr iaith Gymraeg

Gellir cwblhau'r Offeryn Sgrinio fel hunanasesiad neu fel rhan o sesiwn gyda hwylusydd petai angen rhagor o gymorth arnoch.

Fel dadansoddiad beirniadol, mae nifer o strategaethau, cynlluniau a gweithgareddau sylweddol (megis y Cynllun Corfforaethol) wedi'u hystyried

gan ddefnyddio'r offeryn sgrinio, sydd wedi helpu'r gwaith o ddatblygu polisïau; fodd bynnag, mae'n bwysig hyrwyddo ymwybyddiaeth ehangach o rywfaint o'r gofynion statudol. Mae'n bwysig bod swyddogion ym mhob rhan o'r Cyngor yn deall naws a diben y ddeddfwriaeth, a gwneir llawer o'r gwaith hwn trwy academi Caerdydd, yn enwedig cyrsiau Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a chysiau'r iaith Gymraeg.

Mae'r Offeryn Sgrinio Polisi Statudol wedi'i ddiwygio er mwyn bodloni gofynion penodol y safonau Llundain Polisi.

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau newydd, mae'r offeryn sgrinio bellach yn gofyn:

Rhan 4: Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

		Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr
4.1	Ydych chi wedi ystyried sut gallai'r polisi gael ei lunio fel bod y penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol neu'n cynyddu effeithiau cadarnhaol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg?			
4.2	Ydych chi'n credu bod y polisi'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg?			

Os nad ydych yn siŵr o'ch atebion i'r cwestiynau uchod, cysylltwch â thîm Caerdydd Ddwieithog am gyngor ar (029) 2087 2527 neu e-bostiwch: Bilingualcardiff@cardiff.gov.uk

Gellir sicrhau bod pob asesiad a gwblheir ar gael, ac mae prosesau wedi'u sefydlu i sicrhau bod yr holl strategaethau, polisïau a gweithgareddau newydd yn cael eu hasesu, os oes angen, drwy'r Offeryn Sgrinio. Mae'r Cyngor wedi helpu i sicrhau bod yr offeryn sgrinio'n ystyriaeth gorfforaethol, a bod yr holl gyfarwyddiaethau yn ei hystyried wrth ddatblygu polisïau, strategaethau a gweithgareddau newydd. Y gwasanaethau perthnasol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Tîm Corfforaethol yn ymwybodol o ddiweddariadau priodol ar gyfer polisïau penodol.

SAFONAU GWEITHREDOL

CAMAU GWEITHREDU HYD YN HYN

98 Polisïau yn ymwneud â hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn fewnol

Mae polisi drafft ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddiben hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith ar gael ar dudalen fewnrwyd Caerdydd Ddwieithog.

99 Swyddi Newydd

Mae'r Cyngor yn cynnig contractau i gyflogeion newydd yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unol â'u dewis iaith.

100-104 Gohebiaeth a Dogfennaeth yn ymwneud â Chyflogaeth Staff

Anfonwyd llythyr arolwg at yr holl aelodau staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion ym mis Ebrill 2016, yn eu hysbysu am eu hawliau o dan y safonau, yn ogystal â gofyn iddynt gofnodi eu sgiliau Cymraeg a'u dewis iaith. Er mwyn cofnodi dewis iaith y rhai hynny sy'n dymuno derbyn gohebiaeth ar bapur yn Gymraeg, mewn modd manwl gywir a chanolog, mae datblygiadau pellach o fewn y system AD ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd y datblygiadau hyn yn golygu yr atgoffir rheolwyr a staff AD i anfon gohebiaeth yn Gymraeg yn unol â dewis iaith aelodau staff.

105-111 Polisiâu AD

Mae'r polisiâu a nodir o dan safonau 105-111 bellach ar gael yn ddwyieithog.

112-1199 Cwynion a Disgyblu

O fis Ebrill 2016 ymlaen, rhoddwyd polisi datrys newydd ar waith gan y Cyngor yn lle ei hen bolisi disgyblu a datrys. Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at hawliau staff sy'n dymuno i wybodaeth/prosesau penodol fod ar gael yn Gymraeg.

Dan Safonau'r Gymraeg, mae gan bob cyflogai yr hawl i wneud cwynion, ac ymateb i gwynion neu honiadau a wnaed yn eu herbyn drwy'r broses ddisgyblu yn y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gohebiaeth, dogfennau ac unrhyw weithdrefnau, cyfarfodydd a chanlyniadau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg. Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer cyfarfodydd cysylltiedig oni bai eu bod yn cael eu cynnal yn Gymraeg heb wasanaethau cyfieithu.

120 Meddalwedd

Mae Cysgliad ar gael i bob aelod o staff sydd â chyfrifiadur personol fel rhyngwyneb bwrdd gwaith, a hysbysebiri y ffaith ei fod ar gael yn aml yn y Cylchlythyr Materion Cymraeg ac erthyglau yn 'Your Inbox'. Gall staff ofyn am gopi trwy'r Ddesg Gwasanaeth. Mae Windows ac Office hefyd ar gael yn Gymraeg, ac mae cyngor ar sut i newid gosodiadau iaith ar gael gan y gwasanaeth TGCh.

121-126

Mae hafan ac unrhyw dudalennau newydd a gyhoeddir ar fewnrwyd y Cyngor bellach yn ddwyieithog. Caiff erthyglau newyddion staff eu diweddarau'n ddyddiol a'u cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu mewnwyd gwbl ddwyieithog yr ydym ni'n bwriadu ei gorffen erbyn 30 Medi 2018.



127 Aseu sgiliau ieithyddol

Anfonwyd llythyr arolwg at staff ym mis Ebrill 2016 yn eu hysbysu am y safonau ac yn gofyn iddynt nodi eu sgiliau Cymraeg a'u dewis iaith.

Atgoffir staff yn aml i ddilysu eu data personol eu hunain ar y system AD (DigiGov). Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gofnodi gallu aelodau staff i siarad Cymraeg (ac ieithoedd eraill).

128-132 Hyfforddiant

Mae trefniadau ar waith i sicrhau y gall staff wneud cais i dderbyn eu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 128. Yn 2016-17, gwnaethpwyd cais gan un aelod o staff i dderbyn Cwrs Rheoli Perfformiad yn Gymraeg.

Hyfforddiant Cymraeg

Cefnogir staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Ar hyn o bryd gall staff ddewis o dros 100 o gyrsiau a gymeradwyir ym Mhrifysgol Caerdydd neu yn y gymuned, sy'n amrywio o ddysgwyr llwyr i siaradwyr rhugl ar amser ac mewn lleoliad sy'n addas iddyn nhw.

Ceir cyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant Cymraeg, felly mae'r cyrsiau am ddim i staff Cyngor Caerdydd (blaenoriaeth i staff rheng flaen) a chredydir oriau staff am yr amser a neilltuir ganddynt wrth fynychu cyrsiau.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg Ar-lein

Mae modiwl hyfforddi Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ar gael i staff ar wefan Adnoddau Dysgu Academi Caerdydd.

Nod y cwrs yw sicrhau bod staff yn:

- Deall pwysigrwydd y Gymraeg o ran cynnig gwasanaethau'r Cyngor yng Nghymru.
- Deall eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain o ran cynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.
- Asesu sut y maent yn cynnig gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd sydd i'w gwella.
- Deall a gallu defnyddio geiriau a brawddegau syml wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg.

136 – Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd wag.

Mae'r strategaeth sgiliau Cymraeg corfforaethol yn darparu pecyn cymorth ymarferol (offeryn asesu gallu ieithyddol) er mwyn helpu rheolwyr i asesu gofynion Cymraeg eu tîm, fel y gellir hysbysebu rhai swyddi fel 'Cymraeg hanfodol' ac y gellir cynnig hyfforddiant Cymraeg i staff presennol. Yn 2016-17, atgoffwyd Rheolwyr i lenwi'r ffurflen asesu gallu ieithyddol bob tro y caiff swydd newydd ei recriwtio drwy'r system AD (DigiGov).

O ganlyniad i nifer y swyddi a hysbysebwyd gan y Cyngor, mae'r tîm AD yn ymgorffori'r offeryn asesu gallu ieithyddol yn rhan o broses recriwtio'r system AD (DigiGov). Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor gadw cofnodion canolog o bob asesiad ieithyddol a sicrhau y caiff yr asesiadau hyn eu cwblhau ar gyfer bob swydd a recriwitur.

137-140 – Ffurflenni Cais

Cafodd y ffurflenni cais presennol eu diweddarau i gydymffurfio â gofynion newydd y safonau. Mae pob llythyr sy'n cynnig cyfweiliad yn darparu adran i unigolion nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu ar gyfer unrhyw ddull asesu arall. Bydd gwasanaeth cyfieithu Caerdydd Ddwyieithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen.

141-143 Arwyddion a arddangosir mewn gweithle corff

Mae pob arwydd newydd yn ddwyieithog, a'r Gymraeg yn dod yn gyntaf. Mae nodyn cyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi yn ymwneud ag arwyddion a hysbysiadau er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion hyn.

144 – Cyhoeddiadau a negeseuon sain mewn gweithle corff

Caiff y gofyniad ei gynnwys yng nghynllun gweithredu safonau'r Gymraeg, Gwasanaethau Pobl AD.

12. Heriau

• Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniodd y Cyngor 19 ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2016-17 yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r safonau. O dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg yr awdurdod i roi dirwy i sefydliadau am beidio â chydymffurfio â'r safonau. Felly,

mae hyn yn parhau i fod yn risg i'r Cyngor.

- **Gwasanaethau Derbynf**

Mae safon 64 yn ei gwneud hi'n ofynnol sicrhau y gall ein prif ardal dderbynfa ddarparu gwasanaeth cystal yn Gymraeg ac yn Saesneg o fewn 6 mis (30 Mawrth 2016), a phob ardal dderbynfa yn destun y safon hon o fewn 9 mis (30 Medi 2016).

Mae bodloni'n llawn ofynion y safon hon yn parhau i beri her sylweddol, yn anad dim gan fod siaradwyr Cymraeg yn parhau i gael eu tangynrychioli yn ein gweithlu (5.7% ar 31 Mawrth 2017). Cynigir gwersi Cymraeg a ariennir yn gorfforaethol i holl staff rhwng flaen fel rhan o'r drefn arferol, a gan fod y Strategaeth Sgiliau Cymraeg corfforaethol ar fin cael ei hymgorffori a'i symleiddio i fod yn rhan o'r system AD (DigiGov), dylai hyn arwain at gynnydd yn nifer y swyddi Cymraeg hanfodol sy'n cael eu hysbysebu.

- **Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg**

Mae gwasanaeth cyfieithu mewnol y Cyngor (Caerdydd Ddwyeithog) wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am gyfieithu. Mae cyfieithwyr ychwanegol wedi'u cyflogi i fodloni'r galw cynyddol yma a chânt eu hariannu'n bennaf drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cyfieithu gyda Chyngor Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr.

Yn 2017-18, rydym ni'n bwriadu mynd i'r afael â'r heriau uchod a rhoi mesurau ychwanegol ar waith i liniaru'r risg i'r Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys ymgymryd ag adolygiad o swyddi derbynfa'r Cyngor a pharatoi cynllun gweithredu i sicrhau ein bod ni'n bodloni gofynion safon 64 a chynnwys gofyniad yng nghynllun busnes pob cyfarwyddiaeth er mwyn paratoi cynllun gweithredu penodol ar gyfer eu hardaloedd nhw i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sylfaenol neu heriau sy'n benodol i'r gwasanaeth wrth symud ymlaen.